OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2016 Rhif 479 (Cy. 152)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych i Gyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways), Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2016

Gwnaed	*29 Mawrth 2016*
Yn dod i rym	*3 Ebrill 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2),** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Ebrill 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych i Gyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways), Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad

â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 3 Ebrill 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy) yn Sir Ddinbych a Chyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways) yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3 metr o led neu'n fwy, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd o'r fath fynd, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Atal Dros Dro

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 drwy hyn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

Cymhwyso

9. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Mawrth 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain

wrth Gyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy) hyd at ganolbwynt Cyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy).

Y darn cyfan o ffordd fynediad tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 28 (Cyfnewidfa Pont y Waun).

Y darn cyfan o ffordd fynediad tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 29 (Cyffordd Glan Llyn).

Y darn cyfan o ffordd fynediad tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 30 (Cyffordd Traveller's Inn).

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways) hyd at ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 31 (Cyfnewidfa Crossways).

Y darn cyfan o ffordd fynediad tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 30 (Cyffordd Traveller's Inn).

Y darn cyfan o ffordd fynediad tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd Coed Bach.

Y darn cyfan o ffordd fynediad tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 29 (Cyffordd Glan Llyn).

Y darn cyfan o ffordd fynediad tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 28 (Cyfnewidfa Pont y Waun).

Y darn cyfan o ffordd fynediad tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 27a (Cyffordd Pont Dafydd).

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 40 mya dros dro a gwahardd cerbydau sy'n lletach na 3 metr dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.6 cilometr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 27 hyd at ganolbwynt Cyffordd 31.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt sy'n 1.6 cilometr i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 31 hyd at ganolbwynt Cyffordd 27.